Yn ystod y mis bu Cyfarfod Blynyddol y Rhieni Athrawon a chafwyd noson ddiddorol yn trafod gwahanol bynciau. Dewiswyd y swyddogion canlynol: Cadeirydd - Y Prifathro; Is-gadeirydd - Mr I. Rogerson; Ysgrifennydd - Mrs S. Thacker; Trysorydd - Mrs Eirlys Evans; aelodau'r pwyllgor - Mr D. R. Morgan a Mrs Gwenan Price. Ein cynrychiolydd ar Bwyllgor Adloniant Penrhyn-coch a Threfeurig yw Mr R. W. Davies.

Swyddogion Clwb yr Urdd y tymor yw Cadeirydd - Mr R. T. Evans; Ysgrifennydd - Mrs Delyth Ralphs; Trysorydd - Mrs Gwenan Davies. Diolchwyd i Mrs Eirian Morgan am ei llafur a dymunwyd adferiad iechyd buan iddi.

Ar ddiwedd tymor dymunwn Nadolig Hapus iawn i bawb ym mro'r *Tincer*. Ceir hanes wythnos olaf o'r tymor yn yr ysgol yn y rhifyn nesaf o'r *Tincer*.